



At: Pob Pennaeth Ysgol Gynradd,
Pob Pennaeth Ysgol Uwchradd,
Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig,
Cyfarwyddwyr Addysg,
Cyrff Llywodraethu Ysgolion,
Consortia Rhanbarthol

Eich Cyf/Your Ref: INSET
Ein Cyf/Our Ref: INFO

Dyddiad: Chwefror 2020

Annwyl bawb,

Yn dilyn llythyr y Gweinidog ddiwedd y tymor ym mis Gorffennaf, a chan bod y newid i'r rheoliadau bellach wedi dod i rym, ysgrifennaf atoch i roi rhagor o wybodaeth i chi ynghylch y diwrnodau HMS Dysgu Proffesiynol ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd; sef un diwrnod ychwanegol am y tair blynedd nesaf o 2019/2020.

Bydd y diwrnodau ychwanegol hyn yn benodol ar gyfer Dysgu Proffesiynol i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd, a bydd yn digwydd **yn flynyddol yn ystod tymor yr haf**. Bydd y cyntaf yn digwydd yn ystod tymor yr haf 2020. Drwy ddiwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) ar gyfer 2019-2022, mae Llywodraeth Cymru wedi galluogi ysgolion i gau i ddisgyblion ar y diwrnod ychwanegol hwn.

Rydym yn awgrymu bod y diwrnod HMS ychwanegol yn ddiwrnod ysgol cyfan yn hytrach na dau hanner diwrnod neu sesiynau gwyll er mwyn sicrhau bod yr ysgol gyfan yn elwa ac yn manteisio i'r eithaf ar y profiad dysgu. Rydym yn gweithio gyda'r consortia rhanbarthol a grŵp o ysgolion ar hyn o bryd i ddarparu adnoddau digidol, dwyieithog i roi enghreifftiau o sut mae gwahanol ysgolion wedi paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, o ddatblygu gweledigaeth ysgol gyfan, modelu arweinyddiaeth dysgu a dulliau gwahanol o wella Dysgu Proffesiynol i staff, i enwi ond ychydig. Bydd yr adnoddau hyn ar gael i chi eu defnyddio ar y diwrnodau hyn, ni waeth ble mae eich ysgol ar y daith i ddiwygio'r cwricwlwm. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos â'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol er mwyn datblygu cyngor a chanllawiau ar arferion da i ysgolion ar ddefnyddio HMS yn effeithiol. Bydd y

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

prosiect hwn yn cynhyrchu canllawiau newydd, sef “Arwain ar Ddysgu Proffesiynol”, a fydd, ochr yn ochr â'r adnoddau digidol, yn helpu ysgolion wrth iddynt gynllunio'u sesiynau.

Bydd angen i chi benderfynu ar ba ddyddiad yn nhymor yr haf i gynnal y diwrnod HMS ychwanegol, ond rhaid i chi ganolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Er hynny, rwy'n awgrymu'n gryf y dylid amserlennu'r dyddiad fel bod digon o amser cyn diwedd y flwyddyn ysgol i'ch staff gael cyfle i fyfyrto ar y diwrnod.

Er bod yr amser ychwanegol hwn yn werthfawr, nid ddylid anghofio ei fod yn amlach na pheidio yn gostus i rieni. Felly, mae'n hanfodol bod y diwrnod HMS ychwanegol hwn, fel pob diwrnod HMS arall, yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru'n gofyn i chi roi digon o rybudd i rieni (fel y mae'r rhan helaeth o ysgolion eisoes yn ei wneud) ac i roi ystyriaeth i amseriad y diwrnod, gyda golwg ar ei gwneud yn haws i rieni wneud trefniadau gofal plant.

Rydym hefyd yn cydnabod yr adborth o'r ymgynghoriad, sef na fydd un diwrnod ychwanegol am dair blynedd yn ddigonol i fynd i'r afael â'r holl anghenion Dysgu Proffesiynol sydd ynghlwm â gwireddu'r cwricwlwm newydd. Rydym yn cydnabod y byddai un diwrnod y flwyddyn yn annigonol, ac felly rydym yn awgrymu'n gryf bod pob ysgol yn defnyddio **o leiaf** un o'r pum niwrnod HMS blynyddol presennol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn ymwneud â'r cwricwlwm newydd. Rydym yn ymwybodol bod llawer o ysgolion eisoes yn gwneud hyn, ond bydd angen i'r holl ysgolion ddefnyddio'r amser yn ofalus ac yn effeithiol ar lefel ysgol gyfan i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Felly, rydym hefyd yn awgrymu bod pob ymarferydd, o Gynorthwywyr Addysgu i Benaethiaid, yn cymryd rhan weithredol yn y diwrnod HMS ac yn dysgu gyda'i gilydd fel bod yr ysgol gyfan yn hollol barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Mae'r diwrnod HMS cenedlaethol ychwanegol hwn ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn rhan allweddol o'r Dull Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol ehangach. Ni ddylid ystyried y diwrnod ychwanegol, felly, fel cynnig ar ei ben ei hun. Ni ddylid meddwl ychwaith fod y diwrnod hwn yn ddigonol i fynd i'r afael â'r holl anghenion Dysgu Proffesiynol sydd ynghlwm â gwireddu'r cwricwlwm newydd. Yn hytrach, dylid ei ystyried yng nghyd-destun ehangach y Dull Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol, a hefyd ochr yn ochr â'r cyllid ychwanegol o £24 miliwn rydym wedi'i ddarparu er mwyn creu rhagor o amser mewn ysgolion i ymdrin â Dysgu Proffesiynol er mwyn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddatblygu a gwella'u sgiliau a gweithio ar y cyd o fewn ysgolion a rhwng y naill ysgol a'r llall. Dylid hefyd ystyried hyn oll ar y cyd â'r cynnig Dysgu Proffesiynol sy'n cael ei ddatblygu gan y Consortia Rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Yn gywir



Steve Davies
Cyfarwyddwr Addysg / Director of Education